**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

**Lynne Neagle AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**
**Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

26 Ionawr 2023

Annwyl Huw

**Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022 a Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Ionawr 2023 ynglŷn â'r Offerynnau Statudol uchod. Gofynnwyd nifer o gwestiynau yn eich llythyr ac mae ymateb y Llywodraeth i'w weld isod.

***Q1. A allwch gadarnhau pryd y bydd yr offeryn cywiro yn cael ei wneud i fynd i'r afael â'r ddau gamgymeriad a nodwyd yn y Rheoliadau TARP.***

Rydym yn cynnig cyflwyno Offeryn Statudol pwrpasol ddechrau mis Mawrth i gywiro'r camgymeriadau.

***C2. A allwch gadarnhau bod y 12 camgymeriad arall yr adroddwyd amdanynt wedi'u cywiro cyn i'r Rheoliadau TARP gael eu cyhoeddi gan yr Archifau Cenedlaethol.***

Rydym yn cadarnhau y cywirwyd y camgymeriadau hyn wrth wneud y rheoliadau.

***C3. A allwch gadarnhau pryd a sut y bydd y newid i'r weithdrefn graffu yn y Rheoliadau TARP yn cael ei wneud.***

Nid ydym, hyd yma, wedi nodi pŵer galluogi priodol ar gyfer gwneud y gwelliant hwn. Rydym yn parhau i ddadansoddi'r pwerau sydd ar gael a byddwn, drwy lythyr, yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf â'r Pwyllgor cyn gynted ag y bydd pŵer wedi'i nodi, ynghyd ag amserlen ar gyfer gwneud y gwelliant.

***C4. A allwch roi eglurder ynghylch pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u rhoi ar waith (neu y bydd yn eu rhoi ar waith) i sicrhau na fydd cais i gymeradwyo***

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

***rheoliadau yr ydych yn ymwybodol eu bod yn ddiffygiol yn cael ei osod gerbron y Senedd yn y dyfodol. Yn benodol, mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol bod Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) yn cynnwys darpariaeth machlud fel y bydd y rhan fwyaf o gyfraith yr UE a ddargedwir yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2023. O ystyried bod 'diffodd' y pwerau yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ar 31 Rhagfyr 2022 yn ffactor allweddol ym mhenderfyniad Llywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â rheoliadau diffygiol, byddem yn croesawu eglurder ynghylch sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau y gall weithredu mewn modd amserol fel nad ydym, ym mis Rhagfyr eleni, yn canfod ein hunain yn yr un sefyllfa.***

Mae swmp a chymhlethdod y ddeddfwriaeth sydd wedi bod yn angenrheidiol mewn perthynas ag ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd wedi bod yn ddigynsail. Er nad oes modd osgoi sefyllfa pan fydd rhaid llunio deddfwriaeth o dan gryn bwysau amser o bryd i'w gilydd, gallwn sicrhau'r Pwyllgor y bydd deddfwriaeth yn parhau i gael ei drafftio yn unol â pholisi drafftio arferol Llywodraeth Cymru. Byddwn yn parhau i ddefnyddio dulliau a chynnal gwiriadau cymeradwy, profedig. Os bydd Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) yn cael y Cydsyniad Brenhinol, ein bwriad fydd gwneud unrhyw ddeddfwriaeth angenrheidiol mewn da bryd.

***C5. A allwch roi amcangyfrif mwy manwl gywir ynghylch pryd y bydd yr offeryn cywiro yn cael ei wneud i fynd i'r afael â'r tri chamgymeriad a nodwyd yn y Rheoliadau Bwyd.***

Rydym yn bwriadu mynd i'r afael â'r pwyntiau hyn sy'n dal heb eu datrys mewn Offeryn Statudol Bwyd a Bwyd Anifeiliaid arfaethedig. Ar hyn o bryd, bwriedir i'r offeryn hwnnw gael ei wneud/ei osod ganol fis Mawrth 2023. Gan ddibynnu a fydd unrhyw oedi annisgwyl o safbwynt yr amserlen arfaethedig, bydd unrhyw welliannau pellach yn dod i rym ddechrau mis Ebrill 2023.

***C6. A allwch gadarnhau bod Cofrestrydd yr OSau wedi cytuno i fynd i'r afael â'r ddau gamgymeriad a nodwyd yn y Rheoliadau Bwyd drwy slip cywiro.***

Fel y soniwyd yn ymateb y Llywodraeth i bwyntiau adrodd y Pwyllgor, nodwyd bod natur dau fân gamgymeriad teipograffyddol yn Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022 (pwyntiau 1 a 4 yn adroddiad y Pwyllgor) yn golygu y byddai'n bosibl ymdrin â hwy drwy slip cywiro. Mae'n glir mai mân gamgymeriadau teipograffyddol nad oeddent yn effeithio ar sylwedd ystyr yr Offeryn oedd y ddau gamgymeriad. Mân gywiriadau oedd y rhain ac roedd y testun a'r lleoliad yr un mor amlwg. Yn unol â'r ymrwymiad a wnaed i'r Pwyllgor a hefyd yn y Cyfarfod Llawn, cafodd y ddau gamgymeriad hwn eu hunioni ar ôl i'r Offeryn gael ei wneud. Yn yr achos hwn, cafodd y cywiriadau eu gwneud fel rhan o'r broses gofrestru sy'n golygu nad oes angen llunio slip cywiro. Mae hefyd yn sicrhau bod y fersiwn gyhoeddedig wedi'i chywiro cyn i'r Offeryn ddod i rym.

Yn gywir,



**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**



**Lynne Neagle AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**
**Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing**